CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Llywydd:*
*Dr. E D. Jones*
*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*
**Cyhoeddir Y Casglwr**
**gyda chymorth ariannol**
**Cyngor Celfyddydau Cymru.**


## Dafydd Whiteside Thomas a llyfr cofnodion

# Eisteddfod Plant yn 1910

UN O'R pethau sy'n fy meddiant yw llyfr cofnodion pwyllgor Eisteddfod Plant Pontrhythallt am 1910. Mae'n ddiddorol pori drwyddo a sylwi faint o newid sydd wedi digwydd ym mhatrwm eisteddfod capel/bentref dros y pedwar ugain mlynedd diwethaf.

Roedd 26 aelod ar y Pwyllgor Cyffredinol ynghyd â Llywydd, Is-lywydd, Trysorydd, Ysgrifennydd a dwy o 'Gasglyddion yn yr Ysgol' — beth bynnag oedd swyddogaeth y rheini. Roedd y cyfan wedi eu rhannu yn Bwyllgor Llenyddol, Pwyllgor Cerddorol a Phwyllgor Celfyddydol (dim ond y merched oedd yn aelodau o'r olaf!)

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyffredinol ar Fawrth 15fed. Ymddengys mai'r prif fusnes ar y noson honno oedd rhannu'r aelodau i'r tri phwyllgor a nodwyd eisoes. Ni phenderfynwyd ar ddyddiad yr eisteddfod hyd yn oed, ond pasiwyd yn unfrydol i godi oed yr Eisteddfod o 17eg i 21ain.

Roedd yn ddiwedd mis Mai ar y pwyllgor nesaf yn cyfarfod. Deg yn unig o'r aelodau oedd yn bresennol. Gwnaethpwyd dau benderfyniad pwysig:

1. Fod y Pwyllgor yn fodlon i dderbyn awgrymiadau am destunau os oedd gwobr ynghlwm wrth yr awgrym, ac "os y barna y Pwyllgor Cyffredinol y cyfryw destunau yn sylweddol a doeth."
2. Fod yr Eisteddfod i'w chynnal ar 22ain, 23ain a 24ain o Ragfyr, 1910.

Ar Fehefin 14eg daeth pum aelod ynghyd i gynnal y Pwyllgor Llenyddol. Cafwyd wyth o benderfyniadau ynglŷn â gwahanol destunau. Yn eu plith roedd "ysgrif ddisgrifiadol o'ch galwedigaeth", cyfansoddi cân ar 'Noson gwneud Cyflath', arholiad ar lyfr, cyfieithu, sgwennu llythyr, dictation Cymraeg, a'r hen ffefryn, atalnodi darn a roddir ar y pryd.

Gweithredwyd hefyd ar benderfyniad y pwyllgor blaenorol. Cafwyd cynnig gwobr o bum swllt am ysgrif ddisgrifiadol o'r olygfa a geir yn yr haf oddi ar bont y trên. Derbyniwyd yr awgrym a'r wobr!

Testun diddorol a osodwyd gan y Pwyllgor Llenyddol yn ystod y cyfarfod hwn oedd "gweithio sums i weithwyr dan 21ain oed", gyda gwobrau o ddeunaw a swllt yn cael eu cynnig.

* * *

DDWY noson yn ddiweddarach, cyfarfu'r Pwyllgor Cerddorol. Penderfynwyd ar bedair cystadleuaeth yn unig, a'r testunau i'w cael o daflen yr Ysgolion Sul neu o'r Llyfr Tonau. Wythnos yn ddiweddarach, roedd y Pwyllgor Cerddorol yn cyfarfod eto, a phenderfynwyd ar fwy o destunau, gan gynnwys 'action song' i rai dan 15eg oed.

Ar ddiwedd Mehefin cafwyd Pwyllgor Unedig — y Llenyddol a'r Cerddorol. Ychwanegwyd at destunau adrodd a chanu. Pasiwyd yn unfrydol fod yr unawd dan 7 oed i'w chadw, sef "Iesu annwyl gwrando ni", a bod y cyweirnod "at ryddid y dadganwr".

Ar ddechrau Gorffennaf, roedd y Pwyllgor Llenyddol yn cyfarfod unwaith eto, ac yn penderfynu ar destunau adrodd ac areithio. Penderfynwyd ar ddeng munud o amser ar gyfer "Unrhyw Ddadl".

Pasiwyd hefyd fod hanner "Sioned" yn faes arholiad i rai dan ddeunaw oed. Ni chofnodir pa hanner.

Yn anffodus, nid oes unrhyw gofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Celfyddydol yn y llyfr. Nid oes dim arall ynddo 'chwaith am eisteddfod 1910. Ond yng nghefn y llyfr, mae rhestr gyfan o destunau eisteddfod 1911 a gynhaliwyd ar ddydd Nadolig a dydd gwyl San Steffan.

Nid eisteddfod plant oedd hon: mae'n amlwg fod y pwyllgor wedi penderfynu cynnal eisteddfod agored i bob oed ac 'agored i'r byd'.

* * *

MAE rhai o'r cystadleuthau yn ddiddorol iawn: dyma ddetholiad o rai ohonynt.

"Gosod gyda'r berdoneg ar alaw Pen Rhaw." Gwobr 5 swllt.

"Unawd i rai heb ennill mwy na 7/6 yn flaenorol." Gwobr 7/6.

"Ateb chwech o gwestiynau ar 'Elfennau Cerddoriaeth'." Gwobr 3 swllt.

"Stori fer (heb fod dros 30 tudalen copi) wedi ei llunio ar unrhyw dyddyn, bwthyn neu blas yn Llanrug, ac yn cydweddu â bywyd yr ardal mewn unrhyw gyfnod. Awgrymir y testunau canlynol er mantais i ymgeiswyr: Rhiannon Ty'n Coed; Ysbryd Coed Goleu; Hywel Hafod Ruffydd; Dirgelwch Bryn Fedwen; Adlais Gweddi Sian Pen-lan; Y Ferch Wen o Rhos-ddu."

"Cyfieithu darn allan o Gymru'r Plant misoedd Awst, Medi neu Hydref 1911. I rai dan 15eg oed."

Mae cystadleuthau rhif 31 i 35 yn adran Celfyddydwaith yn werth eu darllen:

31. Crotchet neu knitted 'tea Cosy'. Gwobr 5/-
32. Menyg wedi eu gwau i ddyn — lliw grey. Gwobr 4/-
33. Crotchet Petticoat, lliw light fawn a blue i blentyn 3 oed. Gwobr 4/6.
34. Ffrock o Cashmere gwyn neu cream i blentyn 2 fl. oed (gwaith llaw). Gwobr 4/6.
35. Crotchet Silk Tie i ddyn — lliw navy blue. Gwobr 1/6.

31 i 35 yn eiddo rhoddwyr y wobr.

Mae un cofnod bychan arall gyferbyn â thestunau 1911, sef y tâl a gâi'r beirniad cerddorol am feirniadu mewn dau gyfarfod - 15/-.

Ym mhlygion y llyfr cofnodion mae amcangyfrif o gost printio testunau, posteri a thocynnau ar gyfer Eisteddfod 1911 — y cyfan ar bapur pinc o eiddo Gwenlyn Evans, Caernarfon.

Sgwn i faint o gystadlu a fu yn y ddwy eisteddfod, a thybed a oes rywfaint o'r cynnyrch llenyddol wedi ei gadw gan rywrai yn rhywle?

# YMYL Y DDALEN

AETH HANNER canrif heibio er pan gerddais i mewn i siop lyfrau ail-law Eric Jones, olynydd J.R. Morris, yng Nghaernarfon, a phrynu sypyn o faledi o oedd wedi eu hargraffu yn Nhrefriw yn ystod y blynyddoedd 1780-84.

Hyd y gwelaf nid oes copïau o'r baledi isod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Nid ydynt chwaith wedi eu rhestru gan J.H. Davies yn ei gyfrol ddefnyddiol

1. Dwy o Gerddi Newyddion.
   1 Ymddiddan rhwng bodlondeb ac Anfondoldeb 11 Ar ddymuned i bawb wellau ei buchedd ac i ddeusyf bendith Duw ar ein lliniaeth, y flwyddyn galed hon, agor cysur ddyn tylawd iw gymmell ef i roi ei bwys ar yr Arglwydd, yn lle cwynfan yn ei erbyn.
   Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1783.
   1 a 11 gan Ellis Roberts.
2. Dwy o Gerddi Newyddion.
   1 o ddiolchgarwch i Dduw roes heddwch ag . . . 11 Hanes merch i *Emprwr* roes ei ffansi ar Fab i Ffarmwr o *Blymowth* Sir, yr hwn oedd Sawdwr . . .
   Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1783.
   1 gan E.R. 11 Heb enw'r awdur.
3. Dwy o Gerddi Newyddion.
   1 O Glod i Dduw gogoneddus am y Cynhaua da a roes ef flwyddyn hon. 11 O gwynfan hen Banwr a fase yn un Clodfawr yn ei ddyddie, ond yn awr mae yn rhaid iddo gadw gwâs at gweirio a phresio.
   Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1784.
   1 a 11 gan Ellis Roberts.
4. Dwy o Gerddi Newyddion.
   1 yn rhoi hanes am un *John Green*, o *Staffo Sir* a laddodd ei Gariad, y flwyddyn hon, wedi bod yn ei Charu dros Dair blynedd, ar hanes fel y mae'n canlyn. 11 O fawl ir Clodfawr ac Ardderchoccaf *Gyrnol Baily* Marchog Sir Fon.
   Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones: 1784.
   1 gan Ellis Roberts. 11 Heb enw'r awdur.
5. Dwy o Gerddi Newyddion.
   1 Ymddiddan rhwng Meistr tir a Tenant 11 Ymddiddan rhwng Ifanc ai Gariad.
   Trefriw
   1 a 11 gan Hugh Jones Llangwm. Anghyflawn.
6. Dwy o Gerddi Tra Rhagorol, Yn Enwedig 1. Hanes Bywyd Ellis y Cowper, ar, *Hun Gwenllian*. 11 Cynghor i'r Merched.
   Caerlleon: Argraphwyd gan T. Huxley, yn agos i'r *Eastgate*.
   1 gan Ellis Roberts. 11 Heb enw'r awdur.
7. Dwy o Gerddi Newyddion.
   Yn Gyntaf. Ymddiddan rhwng *Dall* a'i *Arwainidd*. Yn ail. Yn dangos, Trieni y rhai sydd yn *Ddeilliaid Ysprydol*.
   Aberhonddu, Argraphwyd yn y Struet, gan J. Evans, 1784.
   1 a 11 gan Thomas Edwards. — D.W.W.